Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Cwmnedd**

**Ysgol Gymraeg Cwmnedd**
**New Street**
**Glynneath**
**Castell-nedd**
**SA11 5AA**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

03/07/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cylch Meithrin Cwmnedd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Cwmnedd |
| Lleoedd cofrestredig | 20 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 4 Rhagfyr 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn teimlo'n hyderus i gyfleu eu dymuniadau, a chaiff eu hanghenion eu hystyried yn llawn. Maent yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau, a chaiff eu diddordebau eu gwerthfawrogi.
Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac maent wedi meithrin cydberthnasau agos â'u cyfoedion a'r staff. Maent yn chwarae'n egnïol ac yn dangos mwynhad wrth ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth.

Mae'r staff yn dilyn polisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol.
Maent yn rheoli risgiau ac yn deall eu cyfrifoldebau i amddiffyn y plant.
Mae'r staff yn cynllunio gweithgareddau'n ofalus ac yn sicrhau bod y plant yn cael eu cefnogi i ddysgu.

Mae gan yr arweinwyr bolisïau ar waith i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da yn gyffredinol. Mae gan yr arweinwyr fesurau iechyd a diogelwch da ar waith ac maent yn lleihau'r rhan fwyaf o'r risgiau i'r plant.

Mae'r arweinwyr yn ymrwymedig i welliannau parhaus. Maent yn deall eu cyfrifoldebau rheoliadol ac yn sicrhau y caiff hyfforddiant staff ei reoli. Maent wedi meithrin cydberthynas gref â'r rhieni a'r gymuned leol.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae'r plant yn hapus ac yn mwynhau'r rhyddid i wneud penderfyniadau a dewisiadau yn eu profiadau
chwarae a dysgu. Rhoddir nifer o gyfleoedd i gael eu lleisiau wedi'u clywed ac i fynegi
eu barn. Er enghraifft, gofynnodd y plant am bapur yn yr ardal gwneud marciau,
dewis paratoi cawl tatws yn y gegin chwarae rôl a threulio amser wedi ymgolli mewn adnoddau paru lliwiau. Yn ystod amser byrbryd, maent yn hyderus wrth ddweud eu bod wedi cael digon i'w fwyta ac yn gofyn pan fyddant am fynd i'r toiled. Er enghraifft, *“Ga i fynd i'r tŷ bach?” “Ga i sychu trwyn? “Gai mwy plîs?”*

Mae bron pob plentyn wedi setlo yn y lleoliad ac yn mwynhau cwmni ffrindiau newydd a'r staff.
Maent wedi dechrau meithrin cydberthnasau da â'u cyfoedion ac yn sgwrsio'n hapus ymysg ei
gilydd. Maent yn gyfforddus os bydd ymwelwyr yn bresennol. Er enghraifft, dywedodd y plant wrthym am ddal y bêl amryliw yr oeddent yn ei thaflu a gofyn i ni ei thaflu nôl er mwyn iddynt allu dangos eu sgiliau dal yn llawn balchder. Mae'r plant yn meithrin cydberthnasau cadarn â'u cyfoedion ac yn mwynhau gweithio gyda'i gilydd wrth chwarae a thacluso. Yn ystod sesiwn amser cylch, maent yn mwynhau sgwrsio ac enwi aelodau o'u teulu, gyda rhai yn dweud straeon yn hyderus am yr anifeiliaid yn eu cartrefi. Mae'r plant wedi datblygu dealltwriaeth glir o'u hunaniaeth a'u diwylliant ac yn mwynhau canolbwyntio ar thema lindys a glöynnod byw yn ddwyieithog. Maent yn frwdfrydig ac yn adrodd eu profiadau o'r lindys yn troi'n löynnod byw gyda dealltwriaeth glir a sgiliau iaith. Caiff y plant nifer o gyfleoedd i chwarae a dysgu'r thema hon drwy gelf, crefft a dweud stori.

Mae'r plant yn mwynhau defnyddio amrywiaeth o gyfarpar go iawn yn y gegin chwarae rôl fel sosbenni, jygiau a llwyau cymysgu i wneud cawl. Maent yn mwynhau amser stori, gan wrando a chanolbwyntio gyda nifer ohonynt yn awyddus i gyfrannu ac ateb cwestiynau. Yn yr ardal awyr agored, mae'r plant yn anturus ac yn brysur. Er enghraifft, wrth gymryd eu tro a chwarae ar deganau eistedd a reidio. Mae'r plant yn datblygu sgiliau annibyniaeth cadarn wrth iddynt fwynhau cofrestru eu hunain wrth gyrraedd. Maent yn magu hyder a hunan fri wrth arwain tasgau annibynnol, fel sicrhau eu bod yn gweini eu hunain wrth y bwrdd byrbryd sy'n rholio. Mae'r plant yn defnyddio'r toiled, yn golchi eu dwylo, sychu trwyn, tacluso, bwyta, chwarae a gwisgo eu cotiau cyn chwarae yn yr awyr agored.

| Gofal a Datblygiad | Da |
| --- | --- |

Mae'r staff yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu'r plant a hybu iechyd a llesiant y plant yn eu gofal. Maent yn deall y polisi a'r gweithdrefnau diogelu a gwelsom siartiau llif o gwmpas y lleoliad yn dangos rhifau cyswllt fel bod y staff yn gallu codi pryderon. Mae hyfforddiant y staff ar ddiogelu plant wedi cael ei gwblhau. Mae gweithdrefnau cywir ar waith ar gyfer cofnodi damweiniau a digwyddiadau ac mae'r staff wedi diweddaru eu hyfforddiant cymorth cyntaf. Ceir trefniadau clir ar waith i'r staff gadw'r plant yn ddiogel mewn perthynas ag alergeddau. Mae ganddynt weithdrefnau hylendid cadarn. Mae'r staff yn sychu byrddau cyn amser bwyd ac yn annog y plant i ystyried eu hylendid personol wrth olchi eu dwylo â sebon a sychu eu dwylo yn annibynnol. Mae'r staff yn paratoi byrbrydau iach fel bara brown, caws, ciwcymbr a mefus ar ffurf bwrdd byrbryd sy'n rholio er mwyn i'r plant gael byrbryd. Mae'r staff yn atgoffa'r plant bod eu poteli dŵr ar y troliau cyfagos. Er na wnaethom arsylwi'r broses newid cewynnau, mae ganddynt bolisi clir a chofnodion newid cewynnau clir. Mae'r staff yn defnyddio gweithdrefnau diogel i dywys y plant i doiledau'r ganolfan a'u cefnogi i fod yn annibynnol. Mae'r staff yn deall eu gofynion i gefnogi'r plant ag anghenion dysgu ychwanegol a gwelsom dystiolaeth o'r staff yn gweithio'n effeithiol i gefnogi'r plant yn unigol yn ystod ein hymweliad.

Mae'r staff yn garedig ac yn dangos parch tuag at y plant. Maent yn adnabod y plant yn dda, ac maent yn fodelau rôl da. Mae'r staff wedi meithrin cydberthnasau cynnes ac yn rhyngweithio mewn modd cefnogol a chyfforddus. Maent yn cynnig amserlen sefydlog, sy'n rhoi trefn i'r plant a rhyddid i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain. Mae'r staff yn modelu'r Gymraeg yn glir ac yn gywir wrth sgwrsio, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ryngweithio agored a naturiol â'r plant. Maent yn cynnig cyfleoedd i fwynhau amseroedd bwyd mewn modd cymdeithasol o amgylch y bwrdd ac mae'r staff yn eistedd gyda'r plant er mwyn rhoi sicrwydd, cymorth a chanmoliaeth. Maent yn cynnig strategaethau i reoli ymddygiad y plant ac yn annog arferion da fel tacluso a gweithio gyda'i gilydd yn garedig.

Mae llawer o'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn darparu gwybodaeth fanwl am anghenion ac arferion y plant. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o sgiliau unigol y plant. Mae'r staff yn cadw cofnodion goruchwylio clir a phwrpasol sy'n cyfrannu at eu proses gynllunio yn effeithiol. Gwelsom dystiolaeth o gynnydd unigol y plant yn cael ei gofnodi, sy'n cynnwys profiadau a chyflawniadau'r plant, a chaiff ei rannu â'r rhieni a'r ysgol yn ystod y broses drosglwyddo. Mae gan lawer o'r staff ddealltwriaeth dda iawn o hawliau plant ac amrywiaeth ac maent yn ymrwymedig i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau chwarae a dysgu sy'n briodol i'w hoedran.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae gan yr arweinwyr fesurau a pholisïau effeithiol ar waith i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch y plant. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da, dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r holl ymwelwyr yn llofnodi wrth gyrraedd ar system ipad yn nerbynfa'r ysgol ac yn y gwasanaeth. Mae'r arweinwyr yn cynnig amgylchedd croesawgar, cynnes a chartrefol, gyda mynedfeydd ac allanfeydd clir. Maent yn cynnal ymarferion tân a phrosesau gwagio'r adeilad yn rheolaidd gyda'r ysgol gyfan. Ceir marsialiaid tân dynodedig ar gyfer y lleoliad ac mae'r holl gofnodion yn gyfredol. Mae'r arweinwyr yn sicrhau y caiff pob cyfarpar tân ei wasanaethu a bod gwiriadau diogelwch yr adeilad yn cael eu cynnal a'u dogfennu'n gywir. Caiff asesiadau risg eu hadolygu a'u diweddaru pan fo angen. Mae'r arweinwyr yn cadw hysbysfwrdd sydd â chofnod o wybodaeth ddyddiol sy'n cynnwys amrywiaeth o ofynion rheoliadol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cynnwys ardal chwarae dan do dda er mwyn galluogi'r plant i symud yn rhydd. Maent yn cynnig amgylchedd sy'n cynnwys mynedfa ddiogel a swyddfa gyfrinachol i gynnal trafodaethau â rhieni, yn ogystal â sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu storio'n gyfrinachol. Nid oes modd i'r bobl fynd i'r gegin sydd wedi'i diweddaru, lle caiff byrbrydau eu paratoi'n ddiogel. Mae'r arweinwyr yn darparu amrywiaeth o ardaloedd dysgu dan do sy'n galluogi'r plant i archwilio a meithrin sgiliau newydd. Maent hefyd yn sicrhau bod yr ardal awyr agored yn gaeedig ac yn cynnig ardal breifat i'r plant chwarae. Caiff y plant eu goruchwylio bob amser, ac mae'r ymarferwyr yn deall lefelau risg.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod amrywiaeth o adnoddau chwarae o ansawdd da ar gael i'r plant dan do. Yn yr ardal awyr agored, maent yn darparu ardal agored gydag amrywiaeth o gyfarpar o ansawdd da sy'n cynnig cyfleoedd i feithrin sgiliau corfforol a sgiliau datrys problemau'r plant ymhellach. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau yn addas ar gyfer oedran y plant, a'u bod yn cynnig amrywiaeth, dewis a chyfleoedd i'r plant archwilio a dysgu. Er enghraifft, mae ardal adeiladu, ardal chwarae rôl, ardal grefft, chwarae dŵr, adnoddau byd bach, ceir, treiciau a chegin fwd.

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth **Da**

Mae'r arweinwyr yn cynnal ac yn rhannu datganiad o ddiben cyfredol ac yn cadw ffeil o bolisïau a gweithdrefnau sydd, ar y cyfan, yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Cafodd y datganiad o ddiben ei ddiweddaru yn ystod yr arolygiad er mwyn adlewyrchu'r oriau agor estynedig newydd. Maent yn adolygu'r polisïau'n flynyddol er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn adlewyrchu arferion y lleoliad. Mae'r arweinwyr yn deall eu cyfrifoldebau rheoliadol ac yn cydymffurfio â bron pob un ohonynt, ac maent yn dogfennu arferion gweithdrefnau yn gyson mewn ffordd drefnus a chyfrinachol. Mae'r arweinwyr wedi datblygu system ar gyfer arfarnu a goruchwylio'r staff, a gwelsom y broses hon ar waith. Roedd ffeiliau'r staff yn gyflawn, ac roedd y wybodaeth ar gael yn hawdd. Mae cofnodion eraill, megis ffeiliau'r plant, rotas staff a dogfennaeth ar waith. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gwybodaeth gyfredol am niferoedd dyddiol y plant, cymarebau a chyfrifoldebau yn cael ei harddangos ar hysbysfwrdd sydd wedi'i leoli mewn man lle y gall pob aelod o'r staff ei weld. Fodd bynnag, roedd y cofrestrau presenoldeb yn cael eu cwblhau gan y staff â phensel yn hytrach na phen.

Mae'r arweinwyr yn llunio adolygiad hunanwerthuso blynyddol manwl. Maent yn ystyried safbwyntiau'r rhieni, y staff a'r plant yn ofalus er mwyn cynnal safonau ac yn sicrhau bod gwelliannau yn cael eu gwneud fel rhan o gynllun gweithredu. Mae'r arweinwyr yn rheoli'r staff yn dda. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod bob amser yn sicrhau lefelau staffio digonol a'u bod wedi cynnal tîm o staff sefydlog a hirdymor. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hapus ac roeddent yn gadarnhaol am y cymorth a'r hyfforddiant y maent yn eu cael gan eu harweinwyr. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant gorfodol a bod rhai aelodau o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant helaeth ar ddiogelwch tân, alergeddau ac iechyd a diogelwch. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hyderus o ran eu rolau a'u cyfrifoldebau unigol a'u bod yn croesawu cyfleoedd i rannu enghreifftiau o arferion da. Mae'r staff yn hapus i gynnig gwybodaeth am arferion dyddiol, cyfrifoldebau diogelu, cyfarfodydd staff a sesiynau goruchwylio.

Mae'r arweinwyr wedi gweithio'n galed i feithrin partneriaethau cryf â'r rhieni. Maent yn mwynhau cydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid proffesiynol, yn enwedig yr ysgol lle maent wedi'u lleoli. Maent yn anelu at roi arweiniad a chymorth ar waith er mwyn gwella profiadau'r plant a throsglwyddiad didrafferth i'r ysgol. Gwnaeth yr arweinwyr gadarnhau eu bod yn cymryd rhan mewn cyngherddau ysgol ac Eisteddfodau. Gwnaethant ddweud wrthym am eu cynlluniau i barhau i wella'r amgylchedd. Maent yn ymgysylltu â'r gymuned drwy ymweld â siopau a pharciau cyfagos. Rhoddodd y rhieni wybod i ni fod eu plant yn mwynhau mynychu'r lleoliad a'u bod wedi gwneud llawer o ffrindiau. Gwnaethant ddweud wrthym fod yr arweinwyr a'r staff yn gefnogol ac yn sicrhau eu bod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt drwy ddiweddariadau ar lafar a chylchlythyrau.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
| --- | --- | --- |
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
| --- | --- |
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 5 - Cofnodion | Sicrhau y caiff yr holl gofrestrau presenoldeb eu cwblhau â phen yn hytrach na phensel. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 04/09/2024